Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Fframwaith rheoleiddio Medr ar gyfer darparwyr trydyddol

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 01 Ebrill 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/13 |

| | |
|---|---|
| **At:** | Yr holl ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru. |
| **Ymateb erbyn:** | Nid oes angen ymateb |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Rheoleiddio \| cyngorrheoleiddio@medr.cymru |


**Crynodeb:**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cyhoeddi lansio'r gyfres lawn a therfynol o ddogfennau i gefnogi ein system reoleiddio newydd, a fydd yn dechrau dod i rym o 01 Awst 2026.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn y Saesneg |
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Fframwaith rheoleiddio Medr ar gyfer addysg drydyddol

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn cyflwyno lansiad y gyfres lawn a therfynol o ddogfennau i gefnogi ein system reoleiddio newydd, a fydd yn dechrau dod i rym o 01 Awst 2026.

2. Mae **Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru 2022** ('Y Ddeddf') yn nodi'r fframwaith y byddwn yn ei ddefnyddio i reoleiddio darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru. Cyhoeddir y Fframwaith Rheoleiddio hwn a'r dogfennau statudol cysylltiedig i fodloni'r dyletswyddau canlynol yn y Ddeddf:

   - 27 (5) Amodau Cofrestru Cychwynnol
   - 28 (7) Amodau Cofrestru Parhaus Cyffredinol
   - 40 (2) Darpariaeth atodol ynghylch cyfarwyddiadau o dan adran 39
   - 50 (4) Fframwaith Sicrhau Ansawdd
   - 81 (3) Datganiad ar Swyddogaethau Ymyrryd
   - 126 (6) Cynlluniau Diogelu Dysgwyr
   - 129 (5) Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

3. Mae dogfennau anstatudol eraill, gan gynnwys dogfen cwestiynau cyffredin, sy'n egluro sut mae'r system newydd yn gweithio mewn iaith glir, a geirfa, sy'n rhoi diffiniadau clir o'r holl dermau rheoleiddio a gweithredol, bellach ar gael ar wefan Medr. Bydd darparwyr trydyddol yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i'r dogfennau yn y dyfodol, yn ychwanegol at ein dyletswyddau statudol i ymgynghori o dan y Ddeddf.

## Cofrestr o ddarparwyr

4. Bydd Medr yn ymgysylltu â'r darparwyr addysg uwch hynny sydd wedi mynegi diddordeb mewn cofrestru. Bydd y darparwyr hynny’n cael mynediad at ffurflen gais ar-lein, a darparwyr cymwys yn cael eu cofrestru o 01 Awst 2026 ymlaen.

5. Bydd y Gofrestr ar gyfer darparwyr addysg uwch ar gael i'r cyhoedd ym mis Awst 2026.

## Rhagor o wybodaeth

6. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y cylchlythyr hwn i sylw cyngorrheoleiddio@medr.cymru.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**